

1

Addysg



Gellir olrhain dechreuadau'r gyfundrefn ysgolion yng Nghymru i'r adeg pan fu eglwysi Cristnogol yn darparu addysg gyda'u hysgolion cylchynol yn y ddeunawfed ganrif. Mae'r Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Gatholig Rufeinig yn parhau i ddarparu addysg yn uniongyrchol, ac mae holl eglwysi Cymru â chyswllt â'r gyfundrefn addysg drwy gyfrwng y Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAGau) a thrwy lawer o bartneriaethau ffurfiol ac anffurfiol eraill yn lleol, yn sirol ac yn genedlaethol.

Cefnogodd eglwysi Cymru'r argymhellion a'r cynlluniau a amlinellodd Llywodraeth bresennol Cymru yn *Dyfodol Llwyddiannus* ('Adroddiad Donaldson' ar y cwricwlwm cenedlaethol, 2015) a *Cymwys am Oes: cwricwlwm i Gymru – cwricwlwm am oes* (ynghylch hyfforddi athrawon) fel y bydd dysgwyr yng Nghymru "yn mwynhau addysgu a dysgu sy'n eu hysbrydoli i lwyddo. Rhaid i aelodau'r gymuned addysgol gydweithio a dyheu am ragoriaeth, er mwyn datblygu potensial pob plentyn a pherson ifanc." Roedd hefyd gefnogaeth drawsbleidiol i'r cynlluniau hyn yn y Cynulliad Cenedlaethol. Y cynllun presennol yw eu datblygu mewn 'Ysgolion Arloesi' hyd 2018, yna eu cyflwyno'n raddol nes eu gweithredu ym mhob ysgol yng Nghymru erbyn mis Medi 2021.

Erys, fodd bynnag, rai pryderon ynghylch y manylion:

- Mae prif fwrdd arholi Cymru, sef CBAC, ar hyn o bryd yn bwriadu cyflwyno manylebau TGAU a lefel A newydd o fis Medi 2016. Mae pryder ynghylch y cyfnod byr sydd gan ysgolion i baratoi at hynny ac ynghylch y ffaith bod y manylebau'n rhagdybio canlyniad proses diwygio'r cwricwlwm.
- Mae'r cwricwlwm diwygiedig yn dod â Hanes, Daeryddiaeth, Crefydd, Athroniaeth a Moeseg ynghyd mewn maes newydd, sef y 'Dyfiaethau'. Pa ddyfodol sydd yna i bynciau'r Dyfiaethau o safbwynt amser, statws ac adnoddau? Sut bydd Addysg Grefyddol yn cael ei dysgu fel rhan o'r maes pynciau newydd hwn?
- Byddai diwygio Llywodraeth Leol, fel mae rhai pleidiau'n ei argymhell, yn golygu newid sylweddol yn strwythur yr Awdurdodau Addysg Lleol. Sut byddai hynny'n effeithio ar y gwasanaethau cynghori a chymorth a ddarperir ar hyn o bryd gan y consortia rhanbarthol?
- Teimlir bod angen i'r drefn newydd o hyfforddi cychwynnol i athrawon fod yn gyson ledled Cymru.

Ysgolion Eglwys

Nod ysgolion a cholegau'r Eglwys Gatholig a'r Eglwys yng Nghymru ledled Cymru yw datblygu'n gyflawn y doniau a roes Duw i bob plentyn, gan ystyried pob plentyn yn blentyn i Dduw. Mae nifer sylweddol o rieni sy'n perthyn i eglwysi a chrefyddau eraill hefyd yn dewis anfon eu plant i'r ysgolion hyn. Mae Erthygl 2 ym Mhrotocol 1 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn nodi y dylai llywodraethau "barchu hawl rhieni i sicrhau addysg ac addysgu sydd yn unol â'u credoau crefyddol ac athronyddol hwy eu hunain".

Mae teimlad arbennig y dylai awdurdodau lleol, wrth weithredu trefniadau cludiant rhwng y cartref a'r ysgol, fod yn barod i ystyried yr ysgol eglwys agosaf fel yr 'ysgol addas' agosaf ac y dylid cynnig cludiant ar yr un telerau ag ar gyfer dysgwyr mewn ysgolion eraill a gynhelir yng Nghymru.

Addysg cyfrwng Cymraeg

Cyfrannodd eglwysi a chapeli yng Nghymru tuag at ddechreuadau'r ysgolion cyfrwng Cymraeg gyda llawer o'r ysgolion hynny'n cyfarfod gyntaf mewn festrïoedd ac ysgoldai lleol. Mae'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn parhau i dyfu mewn ardaloedd a fu gynt yn Saesneg, ac mae rhai awdurdodau lleol yn cael trafferth diwallu'r galw hwnnw. Fodd bynnag, mae tystiolaeth bod llai o rieni'n dewis addysg cyfrwng Cymraeg, yn enwedig ar gyfer plant oedran uwchradd, mewn rhai ardaloedd a fu'n gadarnleoedd i'r Gymraeg.

Mae RhAG, sy'n ymgyrchu dros addysg cyfrwng Cymraeg, yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i gyflwyno polisi cryfach a mwy cyson ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg¹. Mae'r Llywodraeth bresennol wedi mynegi cydymdeimlad â'r syniad o ddileu'r gwahaniaeth rhwng cymwysterau 'iaith gyntaf' ac 'ail iaith' yn y Gymraeg, gan anelu at sicrhau y bydd pob disgybl yn gwbl ddwyieithog erbyn y bydd yn 16 mlwydd oed².

Cwestiynau i ymgeiswyr

- Mewn cyfnod pan fo toriadau'n parhau, faint o gyllid gaiff ei ddyrannu i addysg yng nghyllideb Llywodraeth nesaf Cymru?
- Mae canlyniadau TGAU a Lefel A wedi gwella eto eleni, sy'n galonogol. Ond sut gellir gwella ymhellach ar y canlyniadau hynny, gan gofio bod canlyniadau Cymru'n parhau'n is na rhai Lloegr?
- Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo ac i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg yng Nghymru?
- A ydych yn cytuno y dylid parhau i gynnis Addysg Grefyddol yn ysgolion Cymru? Beth ydych chi'n ei feddwl y dylid ei gynnwys yn y cwricwlwm? Pwy, yn eich barn chi, a ddylai benderfynu?

Cyfeiriadau

- 1 <http://www.rhag.net/stori.php?iaith=cym&id=181> (gwelwyd 24 Ionawr 2016)
- 2 <http://cymdeithas.cymru/newyddion/prif-weinidog-i-ddileu-cymraeg-ail-iaith-croesawu-ymrwymiad-i-gontinwmm-dysgu> (gwelwyd 24 Ionawr 2016)

